Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Adroddiad Ôl Ymgynghori

Pentre'r Eglwys Newydd – Cyfleusterau Croesi i Gerddwyr

Rhif y Project: CO18058

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynlluniau uchod rhwng 17 Gorffennaf 2018 a 3 Awst 2018, ond cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law'n fuan ar ôl y dyddiad cau ei gynnwys yn yr adroddiad hwn hefyd. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os yw'n bosibl.

O'r oddeutu 45 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 6 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 6 ymateb unigol, a dyma grynodeb ohonyn nhw:

- 6 – O blaid y cynnig
- 1- Yn erbyn y cynnig

O'r holl ymatebion unigol cafodd sylwadau eu gwneud hefyd o ran y cynlluniau ac aethpwyd i'r afael â'r rhain o fewn corff yr adroddiad hwn.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno croesfan i gerddwyr a reolir â signal ar bob cangen o'r gyffordd. Bydd y llwybrau cerdded hefyd yn cael eu lledaenu o amgylch y gyffordd a chaiff bolardiau eu gosod er mwyn gwella'r cyfleusterau i gerddwyr yn yr ardal.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

"Ydych chi wedi ymweld â'r safle arfaethedig? A gaf i awgrymu eich bod yn cynnal arolwg byr o draffig yn yr ardal, gan dalu sylw arbennig i'r palmant y tu allan i'r Plough (beth am gynnal eich arolwg yn gymharol gyfforddus a diogel, yn y Plough ei hun?) ar gyffordd Old Church Road a Merthyr Road

Byddwch yn gweld bod (o leiaf) 5 allan o 10 o gerbydau sy'n troi i'r chwith i mewn i Merthyr Road o Old Church yn mynd i fyny ar y palmant!..... ac rydych chi am ei hehangu!

Yn fy marn i bydd hyn yn arwain at anafiadau difrifol ac, o bosibl, marwolaeth i gerddwyr. A wnewch chi ailystyried y cynlluniau hyn."

"Bydd ehangu'r palmant presennol y tu allan i'r Plough yn beth da, ond bydd yn ei wneud yn anodd i gerbydau mawr droi i'r chwith. Pa ddarpariaeth fyddwch chi'n ei wneud i atal cerbydau mawr rhag mynd i fyny ar y palmant (a'i ddinistrio yn y broses) wrth droi i'r chwith? Ydych chi wedi ystyried atal unrhyw droadau i'r chwith yma? Neu wahardd lorïau/cerbydau dros faint penodol o'r ddyfodfa o Old Church Road."

Fel sy'n wir am bob Cynllun Project Trafnidiaeth fel rhan o ddatblygiad cynllun, cynhelir arolygon sy'n edrych ar ffactorau megis llifoedd cerbydau, cyflymder cerbydau, symudiadau cerbydau a hefyd cynhelir ymweliadau â safleoedd er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad ar ba fesurau diogelwch ar y ffordd sydd eu hangen mewn lleoliad penodol.

Yn ystod nifer o ymweliadau â'r safle ac arsylwadau'n cael eu cynnal a oedd yn cynnwys monitro symudiadau cerbydau o gwmpas y gyffordd, ni arsylwyd ar unrhyw ddigwyddiadau o gerbydau'n gyrru dros y droedffordd yn y lleoliad hwn. Er ei fod yn wir o bosibl bod cerbydau'n gyrru dros y droedffordd yn y lleoliad hwn, ni fu unrhyw dystiolaeth o hyn yn ystod yr ymweliadau â'r safle a'r arolygon. Mae'n werth nodi, yn y lleoliad hwn mae ymyl bresennol y cwrbyn yn israddol ac nid yw'n sefyll i fyny'n sylweddol, o dan y cynllun arfaethedig newydd hwn, caiff cwrbyn uchder llawn ei gyflwyno yn y lleoliad hwn a fydd yn fwy o ataliad i rwystro gyrwyr rhag gyrru ar draws y droedffordd yn y lleoliad hwn.

Hyd yn oed gyda chynllun presennol y ffordd, cynhaliwyd rhediadau traciau cerbydau sy'n nodi y gall cerbydau, gan gynnwys cerbydau mwy, fanwfro i droi i'r chwith fel y mae nawr o Old Church Road i Merthyr Road heb orfod gyrru ar draws y droedffordd.
Mae'r Llinell Stopio o Flaen Llaw ar Merthyr Road wedi'i osod yn sylweddol bell yn ôl o'r gyffordd er mwyn hwyluso cerbydau mwy yn manwfro i'r chwith. Os yw gyrwyr ar hyn o bryd yn gyrru ar draws y droedffordd yn y lleoliad hwn, mae hyn oherwydd gyrru gwael ac nid yw'n broblem ynglŷn â chynllun y ffordd.

Oherwydd bod y droedffordd ar ochr ogledd ddwyreiniol Merthyr Road yn culhau y tu allan i'r Plough, ceir achlysuron pan fydd rhaid i ddefnyddwyr y droedffordd gerdded i mewn i'r ffordd er mwyn mynd heibio ei gilydd a allai arwain at wrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau yn y lleoliad hwn. Byddai ehangu'r droedffordd yn y lleoliad hwn yn galluogi cerddwyr i barhau ar hyd y droedffordd heb orfod cerdded ar y lôn gerbydau.

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i wahardd cerbydau mwy yn troi i'r chwith oherwydd y byddai hyn yn gofyn am Orchymyn Rheoleiddio Traffig a hefyd arwyddion rhybudd o flaen llawn drwyddi draw yn yr ardal ac mae gwaith fel hyn y tu allan i gwmpas y cynllun hwn.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

"Rwy'n defnyddio'r gyffordd hon yn rheolaidd fel cerddwr, fel beiciwr ac fel gyrrwr, ac rwy'n cefnogi'r cynllun hwn yn llwyr; dylai sicrhau bod yr ardal hon yn fwy diogel o lawer ac yn haws ei llywio.

"Mae byrdwn cyffredinol y cynnig yn ymddangos yn hollol synhwyrol i ni fel plwyf – yn syml, rydym yn gofyn i chi gymryd i ystyriaeth ein hanghenion o ran mynediad at yr eglwys hefyd."

"Rwy'n croesawu'r cyfnod croesi hollol goch"

"Dylid croesawu ehangu'r palmant presennol y tu allan i'r Plough"

"Rwy'n ddiolchgar iawn eich bod wedi rhoi'r newid hwn gerbron er mwyn ymgynghori arno – rwyf o blaid y newid rydych wedi'i awgrymu ar y gyffordd hon yn llwyr"

"Rydym ni fel trigolion yr uchod yn falch o weld cynlluniau i wneud gwaith yn haws i gerddwyr yn yr ardal."

Mae'r isod yn sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sy'n ymwneud â materion eraill yn deillio o'r ymgynghoriad:

"A gaf i gael eglurhad a gafodd lonydd bwydo ar gyfer yr ASLs eu hystyried? Byddai'r rhain yn gwella'r cynllun pe bai lle ar gael. Hefyd, a fu unrhyw ystyriaeth o groesfan letraws ar y gyffordd i gerddwyr er mwyn darparu ar gyfer llinellau dyhead?"

"Allwch chi sicrhau bod gan y lôn feiciau lôn bwydo i mewn- neu fyddai'n anghyfreithlon i feiciwr ymuno â'r seilwaith hwn tra bod y golau'n goch.

Heb hyn, mae beiciwr wedi symud ymlaen i'r blaen a byddai wedi dod ar draws y dewis yma i naill ai aros i ochr dde car ar flaen y ciw – neu, yn dechnegol torri'r gyfraith trwy groesi'r llinell wen gyntaf i mewn i'r ASL. Mae llawer o gerbydau yn debygol o fod yn troi i'r chwith ar bob un o freichiau'r gyffordd – byddai hyn yn rhoi unrhyw feiciwr mewn perygl."

Er y byddai lonydd bwydo yn y lleoliad hwn o fudd i feicwyr rydym ond yn gallu cyflwyno lonydd bwyd os bydd y ffordd yn ddigon llydan i wneud hyn. Caiff hyn ei ymchwilio yn ystod cam dylunio manwl y cynllun hwn. Fodd bynnag, os nad yw'r ffordd yn ddigon llydan i gyflwyno lôn bwydo mae'n werth nodi, o dan y newidiadau diweddaraf i'r TSRGD 2016 (Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig) cafodd amrywiad newydd ei gyflwyno sy'n hepgor y lôn arwain i mewn neu'r giât yn gyfan gwbl.

Mae sylwadau a dderbyniwyd gan ein Tîm Beicio wedi rhoi gwybod i ni fod ganddynt gynlluniau hirdymor ar y Map Rhwydwaith Integredig i ddatblygu llwybr beiciau ar hyd Church Road/ Old Church Road ac i'r de ar Merthyr Road. Fodd bynnag, fel rhan o'r cynllun arfaethedig hwn, mae ASLs yn cael ei cyflwyno er mwyn rhoi rhagor o gyfleusterau beicio ychwanegol fel rhan o'r cynllun hwn. Er bod y cynllun hwn wedi'i ddylunio gyda'r prif ffocws ar wella diogelwch i gerddwyr yn yr ardal, byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau o ran cyfleusterau beicio ychwanegol gael eu hymchwilio gan ein Tîm Beicio.

Roedd un sylw a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cwrbyn uchder llawn arfaethedig sy'n cymryd lle y trefniant cwrbyn gostyngedig y tu allan i'r Eglwys. Cafodd pryderon eu codi fod cerbydau'n defnyddio'r pwynt mynediad i ollwng offer trwm ar gyfer cynnal a chadw hanfodol i'r eglwys.

Cynhelir trafodaethau gyda'r Eglwys er mwyn sicrhau y caiff ateb addas ei gyflwynon yn y lleoliad hwn na fydd yn cael effaith niweidiol ar gerbydau sydd angen cael mynediad at yr Eglwys.

"Rydym yn croesawu'r ASLs ond cânt eu camddefnyddio'n rheolaidd gan y traffig. Pa fesurau fyddwch yn eu rhoi ar waith i rwystro cerbydau rhag eu defnyddio? A fyddwch yn gosod y goleuadau traffig cyn yr ASLs fel y bydd angen i gerbydau aros y tu ôl i'r ASL i weld y signalau traffig, a gosod goleuadau beicio pwrpasol (yn debyg i'r rhai newydd ar Heol y Gadeirlan)."

Caiff cyflwyno signalau traffig sy'n benodol i feicio eu hadolygu fel rhan o'r cam dylunio manwl er y bydd hyn yn amodol ar gyllid sydd ar gael. Mae Rheol 178 Rheolau'r Ffordd Fawr yn datgan: "Mae'n RHAID i yrwyr, gan gynnwys beicwyr modur, stopio ar y llinell wen gyntaf a gyrhaeddir os bydd y goleuadau'n ambr neu'n goch a dylent osgoi blocio'r ffordd neu fynd at y darn sydd wedi'i farcio ar adegau eraill, e.e. os bydd y gyffordd o'ch blaen wedi'i flocio.

"Os bydd eich cerbyd wedi mynd dros y llinell wen gyntaf pan fydd y signal yn mynd yn goch, ,mae'n RHAID i chi stopio ar yr ail linell wen, hyn yn oed os bydd eich cerbyd yn y darn sydd wedi'i farcio.

"Rhowch amser a lle i feicwyr symud i ffwrdd pan fydd y signal gwyrdd yn ymddangos."

Mewn perthynas, a gyrwyr sy'n mynd yn groes i'r Llinellau Stopio o flaen llaw, gallai gyrwyr dderbyn tri phwynt cosb a dirwy o £100 am stopio o fewn y Llinellau Stopio ymlaen llaw (ASL) wrth dynnu i fyny at olau coch.

"O ystyried y bydd y rheolau signal newydd yn gweithredu ar sail cam "coch i gyd" a ydych chi wedi ystyried croesfannau lletraws hefyd - byddai hyn yn ymddangos fel ychwanegiad rhesymol i'r cynigion?"

"Rwy'n croesawu'r cam croesi coch i gyd, ond pa ddarpariaeth sy'n cael ei wneud ar gyfer croesfan letraws i gerddwyr ar y cam coch i gyd, yn debyg i'r hyn sydd ar gyffordd Corbett/Colum Road, ynghyd â stydiau marciau ffordd lletraws? Byddai dileu'r cwrbyn gostyngedig y tu allan i'r eglwys yn ymddangos na fydd hyn yn digwydd - byddai ei gadw yn gwneud croesfan letraws lawer haws i bobl sydd â phramiau a cadeiriau olwynion."

Mae Cyngor Caerdydd yn cyflwyno Cyffyrdd Sgwâr Melyn ar gyffyrdd prysur er mwyn hwyluso llif y traffig trwy'r gyffordd. Gan fod Cyffordd Sgwâr Melyn yn gweithredu yn y lleoliad hwn, o dan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 ni chaniateir i ni gyflwyno cyfleusterau croesi lletraws lle y mae cyffyrdd sgwâr melyn.

"Mae'r project yn syniad da heblaw am ehangu'r palmant y tu allan i'r Plough trwy fynd i mewn i'r ffordd. Mae angen i'r palmant gael ei ehangu, ynghyd â'r hyd cyfan, ond nid ar draul y ffordd. Dylid cymryd rhan o ardd gwrw y Plough i ffwrdd, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu trwy brynu gorfodol."

Mae’r cynllun hwn yn cael ei gyflawni fel rhan o'n Cyllid Cyfalaf Cyffredinol sy'n cael ei ddyrannu i ni bob blwyddyn ariannol. Fel tîm, mae Projectau Trafnidiaeth ond yn ceisio ymgymryd â chynlluniau ar y Brifffordd a fabwysiedir ac ni fyddem yn ymwneud â phryniannau tir gorfodol ar gyfer cynlluniau oherwydd bod gwaith fel hyn y tu allan i’n cylch gorchwyl. Felly, rydym yn cynnig ehangu'r droedffordd drwy ymestyn y droedffordd ar y lôn gerbydau bresennol.

“Fodd bynnag mae eitemau yr hoffem yr eir i’r afael â nhw

1) 20 mya ar yr uchod i gyd”

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Polisi a Strategaeth y Cyngor yn ymchwilio i weithredu ardaloedd 20 mya ychwanegol drwy’r Ddinas i gyd. Bydd y ffocws cychwynnol ar ardaloedd preswyl ger canol y ddinas. Maes o law, ac yn amodol ar gyllid, caiff ardaloedd eraill eu hystyried ar gyfer terfynau 20 mya.

“2) Bod llinellau melyn dwbl yn golygu dim parcio, yn bennaf i dryciau sy'n dadlwytho i adeiladau ar Merthyr Road neu unman arall. Mae lle ar yr uchod ar gyfer hyn na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer y busnesau ar y ffordd.”

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i Orchmynion Rheoleiddio Traffig fel rhan o’r cynllun hwn, mae llinellau melyn dwbl ar waith o fewn cyffiniau’r cynllun arfaethedig hyn a dylai unrhyw newidiadau i’r cyfyngiadau presennol hyn gael eu cyfeirio ar y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i'w hymchwilio, gellir cysylltu â'r tîm ar y manylion isod:

Tîm TRO, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa’r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW NGwasabaethau Cymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk

“3) Ynglŷn â’r lôn sy’n rhedeg yn gyfrochog i Merthyr Road, a hefyd ger ein heiddo fel uchod, pan gafodd gwaith ei wneud a'i orffen yn y lle cyntaf, roeddem yn falch. Bellach rydym yn gweld bod niwsans y cerbydau o bob maint yn ei defnyddio naill ai i osgoi golau traffig coch, ciwiau traffig, cael mynediad cyflym at Penlline Road neu ddefnyddio maes parcio'r Lleng Brydeinig i gyd yn achosi tryblith gyda cherbydau'n mynd i gyfeiriadau gwahanol, ynghyd ag iaith arferol y gyrwyr sydd wedi cythruddo."

Mae’r lonydd y cyfeiriwyd atynt y tu allan i gwmpas y gwaith hwn.

“4) Arwyddion i’w codi ar Merthyr Road/Penlline Road er mwyn creu effaith “Mynedfa ac Allanfa” i faes parcio’r gogledd.”

Mae arwyddion presennol ar Merthyr Road a Phenlline Road sy'n rhoi gwybod i yrwyr yn y maes parcio am y ddau fynediad. Mae’r arwyddion hyn yn ddigon uchel fel na fyddant yn ffurfio rhwystr i gerddwyr sy’n cerdded ar hyd y llwybr hwn.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy of the post-consultation report.